Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Bro Sannan**
**Ty Fry Road**
**Aberbargoed**
**Bargoed**
**CF81 9FN**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Bro Sannan wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Datblygu strwythur arweinyddiaeth cadarn er mwyn i arweinwyr ar bob lefel gymryd cyfrifoldeb am agweddau pwysig o fywyd a gwaith yr ysgol

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cydweithio â'r awdurdod lleol i benodi pennaeth gweithredol parhaol ynghyd â dirprwy bennaeth gweithredol dros dro, i arwain yr ysgol hon ac ysgol gyfagos. Mae’r pennaeth yn rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol gyda’r holl randdeiliaid ac yn gosod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae wedi sefydlu strwythur arweinyddiaeth cryf sy’n cael effaith gadarnhaol iawn ar fywyd a gwaith yr ysgol. Erbyn hyn, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn arwain ar wahanol agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol yn hyderus. Maent yn cyfrannu’n werthfawr at wireddu’r weledigaeth a thargedau’r cynllun ôl-arolygiad yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r holl staff yn sicrhau bod ffocws parhaus ar wella'r ddarpariaeth a chefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Golyga hyn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn bron pob un o'u blaenoriaethau yn dilyn yr arolygiad craidd.

Mae arweinwyr yn gweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau eraill gan gynnwys ysgolion, yr awdurdod lleol a’r consortiwm rhanbarthol. Maent wedi derbyn ystod o hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi a gwirio'r cynnydd yn erbyn targedau’r cynllun ôl-arolygiad. Mae'r pennaeth yn adnabod anghenion yr ysgol yn arbennig o dda ac yn deall pa gefnogaeth allanol sydd ei hangen ar staff i wireddu'r blaenoriaethau. Mae aelodau’r corff llywodraethol wedi gweithio’n ddiwyd i gefnogi cyfeiriad strategol a gwelliannau’r ysgol yn fwy effeithiol ers yr arolygiad craidd. Trwy arweiniad clir a chadarn y cadeirydd, mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol a’i hanghenion datblygu. O ganlyniad, maent yn defnyddio’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn fwy effeithiol i herio’r ysgol am ei pherfformiad.

### A2. Cryfhau prosesau hunanwerthuso

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso cryf sy’n sicrhau bod bron pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol yn cael sylw yn rheolaidd. Mae’r prosesau hyn yn cynnwys casglu barn staff, llywodraethwyr a phartneriaid strategol, yn ogystal â'r disgyblion a rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau tystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol er mwyn gwerthuso’r safonau a’r ddarpariaeth. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau a gwendidau’r ysgol yn dda iawn ac yn addasu’r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Mae arweinwyr wedi defnyddio targedau’r cynllun ôl-arolygiad yn llwyddiannus i sicrhau gwelliannau amlwg, ac mae ganddynt

ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau ehangach sydd angen sylw. Yn ogystal, maent yn ymateb yn brydlon i ganfyddiadau'r holiaduron staff, rhieni a phlant i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth fynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae holiaduron diweddar ac adolygiad ymddygiad a lles gan yr awdurdod lleol yn cydnabod gwelliannau amlwg yn ymddygiad y disgyblion yn dilyn cefnogaeth bwrpasol gan arweinwyr.

Er gwaethaf effaith y pandemig Covid-19 ar drefniadau monitro'r ysgol, mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi llwyddo i arfarnu'r ddarpariaeth a safonau yn briodol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion, arsylwi ar yr addysgu, dehongli data, craffu ar gynllunio athrawon yn ogystal â sgwrsio â disgyblion am eu gwaith. Mae adroddiadau'r pennaeth ac arweinwyr i sylw'r llywodraethwyr yn fwy arfarnol erbyn hyn, ac yn cynnig adlewyrchiad teg a chywir o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr wybodaeth gadarn am gryfderau a meysydd i'w gwella yn ogystal â chynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl-arolygiad.

**A3. Sicrhau bod athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi aildrefnu'r strwythur staffio'n llwyddiannus er mwyn gwneud y defnydd gorau o arbenigeddau athrawon a chynorthwywyr. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn cyfateb anghenion pob dosbarth i brofiad ac arbenigedd penodol y staff. Mae'r newidiadau strategol hyn wedi arwain at welliannau cadarnhaol mewn diwylliant ymysg yr holl staff ac wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Bellach, maent yn modelu a rhannu strategaethau addysgu effeithiol â'i gilydd yn rheolaidd. Yn ogystal, maent wedi llwyddo i addasu eu haddysgu yn dda yn ystod y pandemig ac wedi rhannu eu harfer gydag ysgolion eraill yn y clwstwr a'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r cydweithio agos a pharhaus hwn hefyd wedi sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn enwedig yn natblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae'r holl staff bellach yn rhan o benderfyniadau yn ymwneud â pha strategaethau addysgu a dysgu sydd fwyaf effeithiol ar draws yr ysgol. Yn ogystal, maent hefyd yn rhan o gyfarfodydd cymedroli a safoni llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o safonau disgyblion.

Mae athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn cydweithio'n effeithiol i baratoi ystod o wersi a phrofiadau dysgu pwrpasol i ddisgyblion. Maent yn cynllunio'n fwriadus gyfresi o weithgareddau ysgogol sy'n hawlio sylw'r disgyblion ac yn tanio'u dychymyg. Cefnogir hyn yn effeithiol gan amrywiaeth o strategaethau addysgu pwrpasol. Yn yr arfer orau, mae'r gweithgareddau'n cyffroi disgyblion o bob gallu ac yn eu herio i berfformio hyd at eu gorau. Mae arweinwyr wedi cynllunio strategaethau defnyddiol a threfnu hyfforddiant pwrpasol er mwyn helpu staff i ymdrin yn well ag ymddygiad annerbyniol. O ganlyniad i'r hyfforddiant llwyddiannus a'r strategaethau addysgu cyson, mae ymddygiad ac agweddau y rhan fwyaf o'r disgyblion at eu dysgu yn arbennig, gyda'r mwyafrif yn hyderus i gymryd rhan yn y dosbarth drwy ateb a holi cwestiynau.

Yn gyffredinol, mae adborth y staff ar waith disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn deall yr hyn maent yn ei wneud yn dda ac mae llawer yn medru esbonio'n glir beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Defnyddia athrawon a chynorthwywyr gwestiynau'n briodol i ddarganfod yr hyn mae disgyblion yn ei ddeall. Yn yr arfer

orau, defnyddia staff dechnegau cwestiynu yn fedrus er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn ddwys am eu hatebion, i gydweithio ag eraill ac i ehangu eu dealltwriaeth.

## A4. Gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion

Ers yr arolygiad, mae'r ysgol wedi penodi arweinwyr i arwain ar lythrennedd a rhifedd sydd wedi sicrhau cynnydd da ym medrau disgyblion.

Mae'r uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am lythrennedd wedi arwain y staff yn effeithiol iawn wrth fonitro safonau a'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi sicrhau bod yr arfer dda a oedd mewn lle eisoes yn parhau, a bod agweddau yr oedd angen eu datblygu yn derbyn sylw teilwng. Mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun llafaredd Cymraeg sydd wedi ei addasu i fodloni anghenion penodol y disgyblion. Mae'r cynllun yn darparu rhaglen iaith strwythuredig a datblygiadol yn seiliedig ar batrymau iaith a geirfa gyffredin. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn uno'r rhaglen gyda'u sesiynau llythrennedd er mwyn sicrhau cyfleoedd buddiol i atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r cysondeb yn y ddarpariaeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau llafaredd, gyda disgyblion o'r dosbarthiadau cynharaf i frig yr ysgol yn sgwrsio'n aeddfed.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff wedi gosod pwyslais cryf ar ddatblygiad darllen trwy gynllunio profiadau dysgu hwyliog i'r disgyblion. Erbyn hyn, mae pwyslais cryf yn y dosbarthiadau hyn ar ddatblygu medrau darllen cynnar y disgyblion ac i feithrin diddordeb mewn llyfrau a storïau. Yng nghyfnod allweddol 2, maent wedi cyflwyno trefniant 'carwsel darllen' er mwyn i ddisgyblion gael cyfleoedd buddiol i ddarllen at wahanol bwrpasau ac amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae cofnodion monitro arweinwyr a chyflawniad disgyblion yn dangos llwyddiant cynnar y trefniant hwn. Mae'r staff sydd fwyaf hyderus yn addysgu darllen yn cefnogi staff eraill yn aml, gan rannu arfer orau a chynnig cyngor a chymorth.

Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae'r staff wedi addasu syniadau ac adnoddau ar gyfer gwella medrau ysgrifennu disgyblion. Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar eu gwaith, i rannu arfer dda ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r tîm rheoli yn arsylwi gwersi er mwyn cefnogi athrawon, yn ogystal â modelu arfer da iddynt hefyd. Mae llawer o athrawon yn cynllunio cyfres o wersi a phrofiadau dysgu yn fedrus, gan adeiladu dealltwriaeth disgyblion o rinweddau a phriodweddau gwahanol fathau o ysgrifennu'n effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn dechrau ysgrifennu ystod eang o waith i safon uchel, er enghraifft ymson yn adrodd hanes trychineb Aberfan o safbwynt cloc eiconig yr ysgol.

Mae'r uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am rifedd wedi sicrhau bod cynlluniau buddiol nawr yn eu lle i gefnogi medrau disgyblion. Mae staff wedi ymgymryd ag ystod dda o hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol ar sut i addysgu a chyflwyno cysyniadau rhifedd a rhifyddeg pen ar lawr y dosbarth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno sesiynau sionc yn ddyddiol i ddatblygu medrau sylfaenol rhifedd y plant. Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon a chynorthwywyr yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu ymarferol hwyliog, er enghraifft trwy gyfri nifer y dinosoriaid sy'n ymddangos yn rhithiol ar dir yr ysgol trwy app penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn dechrau cynllunio ystod briodol o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill. Er hyn, nid yw'r arferion wedi gwreiddio'n llawn ym mhob dosbarth. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn

defnyddio'u medrau'n fedrus i ddatrys problemau ac i gefnogi'u dysgu mewn cyd-destun go iawn, er enghraifft trwy ddilyn taith ar fap gan ddefnyddio cyfesurynnau yn y pedwar pedrant.

**A5. Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion**

Mae’r cyfnod anodd dros y ddwy flynedd diwethaf yn sgil y pandemig wedi cael effaith andwyol ar ddatblygu’r elfen o annibyniaeth ymysg y disgyblion. Mae’r cyfnodau hir o addysgu gartref, ac yna cyfnodau o absenoldebau staff a disgyblion, wedi llesteirio ymdrechion y staff i wreiddio’r gwaith yn llwyddiannus drwy’r ysgol. Er hyn, ers yr arolygiad craidd, mae safon cynllunio athrawon wedi gwella ac mae gweithgareddau bellach wedi eu teilwra’n addas ar gyfer ystod wahanol o alluoedd. Mae’r cynorthwywyr yn gweithio’n effeithiol o fewn a thu allan y dosbarthiadau er mwyn cynnal disgyblion sydd angen cymorth a’u hysgogi i ymgymryd â’r tasgau'n llwyddiannus, heb eu gorarwain at y datrysiad cywir.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn fwy annibynnol. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i ddewis ac ymgymryd ag ystod addas o brofiadau dysgu i gefnogi eu medrau. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae athrawon yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer y disgyblion er mwyn meithrin eu medrau annibynnol. Mae disgwyliad clir bod disgyblion yn meddwl yn ddwys, holi cyfaill neu ddefnyddio adnoddau o fewn y dosbarth cyn mynd at yr athro am gymorth. Yn gyffredinol, mae staff yn creu amgylcheddau symbylus o fewn y dosbarthiadau sydd yn cefnogi’r disgyblion i ddarganfod y wybodaeth ar gyfer datrys heriau.

Mae gan bron pob un o’r disgyblion dargedau sy’n ganllaw iddynt wrth gwblhau eu tasgau ysgrifennu a rhifedd heb yr angen am gymorth oedolyn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae’r targedau yn bersonol i’r unigolyn ac yn fesuradwy er mwyn hybu medrau annibynnol y disgybl.

Mae athrawon yn casglu syniadau’r disgyblion ar ddechrau pob thema yn effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn dechrau defnyddio llais y disgyblion i gynllunio profiadau dysgu a heriau. Erbyn cyfnod allweddol 2, maent yn darparu cyfleoedd mwyfwy gwerthfawr i ddisgyblion gael mewnbwn i’r hyn y maent yn ei ddysgu, sydd yn cymell eu diddordeb ac yn eu hannog i ymroi i’w dysgu.

**Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**